Os hoffech reoli eich sefyllfa ariannol, mae creu cyllideb yn ffordd dda iawn o ddechrau. Yn syml, mae cyllideb yn gofnod o'r arian sy'n dod i mewn a'r holl arian a wariwch. Enghreifftiau o arian yn dod i mewn yw eich cyflog neu'ch tâl, unrhyw bensiynau neu fudd-daliadau. Gwariant yn mynd allan yw taliadau a wneir gennych fel eich rhent neu forgais, yswiriant a threth gyngor, yn ogystal â chostau byw ac unrhyw wariant rheolaidd neu afreolaidd arall.

Mae yna wahanol ffyrdd ac offerynnau y gallwch eu defnyddio i greu cyllideb, er enghraifft ar-lein drwy ddefnyddio cynllunydd cyllideb y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, ar bapur drwy lawrlwytho taflen waith y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, neu ar eich cyfrifiadur drwy ddefnyddio taenlen.

Os yw'ch cyllideb yn dangos eich bod yn gwario mwy bob mis nag sy'n dod i mewn, y cam nesaf yw edrych yn fanylach ar ble mae eich arian yn mynd a ble y gallwch gwtogi.

Gall hyd yn oed symiau bach am bethau fel cylchgronau, brechdanau amser cinio neu fwyd parod ychwanegu'n syndod o uchel at eich costau.